Blegywryd – N, Peniarth 36B, f. 27v, 37v

Trioedd ar Ladron

Tri pheth a hawl dyn yn lletrat ac ny chyghein lletrat yndunt: adeilat, a diot coet, ac eredic.

Tri lleidyr kamlyryus yssyd: lleidyr ki, a lleidyr llyssyeu yny tyfhont o'r dayar, a lleidyr a tyster arnaw yn gwadu lletrat onys llyssa.

Tri lleidyr dirwyus yssyd: lleidyr hyd brenhin gwedy as llatho y gwn, a lleidyr y pallo y reith idaw, a lleidyr a latho llwdyn y dyn arall yn y ty neu yn y vuarth yn lletrat.

Tri lleidyr gwerth yssyd: lleidyr y kaffer dogyn vanac arnaw trwy eglwys, a chytleidyr lleidyr a groccer am letrat, a lleidyr a dalher gwerth pedeir keinhawc gantaw neu lei o da marwawl yn lletrat.

Tri lleidyr crogadwy yssyd: lleidyr da bywawl a dalher vn llwdyn ar y liw gantaw, a lleidyr da marwawl a dalher gwerth pedeir keinhawc kyfreith gantaw neu a uo mwy, a lleidyr da bywawl a dalher croen ar y liw gantaw, ac ny diheurer am y llwdyn o gwbyl.

Tri lleidyr a dieink o letrat kyfadef: reudus a grwyttro teir tref a naw tei ympob tref heb gaffel na chardawt nac alwissen a'e gwaretto na gwestua; kyt dalher a lletrat ymborth, ryd vyd o gyfreith. A gwreic o gytletrat a'e gwr priawt. A lleidyr edyn: kyfreith a'e rydha onyt talu gwerth yr edyn kyfreith a duc o'e perchenhawc.

Blegywryd – N

Trioedd ar Ladron

Tri pheth y gall dyn eu hawlio fel lladrad ond nid ydynt yn gyson â lladrad: adeiladu, a thorri coed, ac aredig.

Tri lleidr camlyrus sydd: lleidr ci, a lleidr llysiau lle y tyfont o'r ddaear, a lleidr y tystier yn ei erbyn ac yntau'n gwadu lladrad oni wrthwyneba hynny.

Tri lleidr dirwyus sydd: lleidr hydd y brenin wedi i'w gŵn ei ladd, a lleidr y pallo ei raith iddo, a lleidr a laddo anifail dyn arall yn ei dŷ neu yn ei fuarth wrth ladrata.

Tri lleidr gwerth sydd: lleidr y caffer gwybodaeth gyflawn amdano trwy eglwys, a chyd-leidr lleidr a groger am ladrad, a lleidr a ddalier â gwerth pedair ceiniog neu lai o eiddo difywyd a ladratwyd ganddo.

Tri lleidr crogadwy sydd: lleidr eiddo byw a ddalier yn agored ag un anifail ganddo, a lleidr eiddo difywyd a ddalier â gwerth pedair ceiniog cyfraith neu fwy ganddo, a lleidr eiddo byw a ddalier yn agored â chroen ganddo, ac nis cyfiawnheir o gwbl am yr anifail cyfan.

Tri lleidr a all ddianc o ladrad cyfaddef: dyn anghenus a grwydro dair trefgordd a naw tŷ ym mhob trefgordd heb gael na chardod nac elusen a'i cynhalio, nac ymborth; er y dalier ef â bwyd a ladratwyd, bydd yn rhydd yn ôl cyfraith. A gwraig o gyd-ladrad â'i gŵr priod. A lleidr aderyn: mae cyfraith yn ei ryddhau ond iddo dalu i'w berchennog werth cyfraith yr aderyn a gymerodd.

Iorwerth – E, BL Add. 14931, f. 11v

Casgliad Trioedd

Try anhepcor brenhin yu: y efferyat urth uendigav y wyut a chanu eferen, a'r ynat llys urth doosparth pob peth pedrus, a'y deulu urth y negesseu.

Try anhepcor gurda: y delyn, a'y urycan, a'y gallaur.

Try anhepcor tayauc: y gauyn, a'y druydeu, a'y bentan.

Try pheth ny dyly brenhin y gywran: y svllt, a'y hebauc, a'y leydyr.

Try ruyt brenhin: y ueirch, a'y uoch, a'y warthec. O chyll dyn aniueil a'y gafael ym plyth anyueillyeit y brenhin, ew a dyly pedeir ceynnyauc o bop un onadunt.

Try ruyt gurda: y ueirch, a'y warthec, a'y uoch. Yny cafo dyn aniueil yn eu plyth huy talhet iiii ceinnyawc.

Teyr ruyt tayauc: y uoch, a'y warthec, a'y ayawdy o Galan Mei hyt Awst. O cheyph anyueil ar gyueylyorn yndau, ew a dyly pedeir ceynnyauc.

Try pheth ny eill tayauc y werthu heb gannyat y argluyd: amvs, a mel, a moch. Ac os gwerth byt diruyauc ual cynt, ac onys pryn y argluyd gwerthet ew y ford y mynho.

Teir celuydyd ny dyly mab tayauc heb gannyat y argluyd, a chet as dysco, ew a dyly y dvyn dracheuyn, onyt yscolheic wedy y chymero urdeu: sew yu hynny, yscolheictaut, a gouannaeth, a bardoni.

Iorwerth – E

Casgliad Trioedd

Tri anhepgor brenin yw: ei offeiriad ar gyfer bendithio ei fwyd a chanu offeren, a'r ynad llys ar gyfer penderfynu pob peth dyrys, a'i deulu ar gyfer [gwneud] ei negesau.

Tri anhepgor gŵr bonheddig: ei delyn, a'i flanced, a'i grochan.

Tri anhepgor taeog: ei gafn, a'i ebill, a'i bentan.

Tri pheth nad yw'n iawn i'r brenin eu rhannu: ei drysor, a'i hebog, a'i leidr.

Tair rhwyd brenin: ei feirch, a'i foch, a'i wartheg. Os cyll dyn anifail a dod o hyd iddo ymhlith anifeiliaid y brenin, mae ganddo hawl i bedair ceiniog dros bob un ohonynt.

Tair rhwyd gŵr bonheddig: ei feirch, a'i wartheg, a'i foch. Lle y caffo dyn anifail yn eu plith hwy, taled bedair ceiniog.

Tair rhwyd taeog: ei foch, a'i wartheg, a'i aeafdy o Galan Mai hyd Awst. Os caiff anifail ar gyfeiliorn ynddo, mae ganddo hawl i bedair ceiniog.

Tri pheth na all taeog eu gwerthu heb ganiatâd ei arglwydd: amws, a mêl, a moch. Ac os gwerth bydd yn ddirwyus fel o'r blaen, ac oni phryn ei arglwydd hwy gwerthed ef [hwy] ba ffordd bynnag y mynno.

Tair celfyddyd nad yw'n iawn i fab taeog eu dysgu heb ganiatâd ei arglwydd, ac er y dysgo ef hwy, mae'n iawn iddo gael ei ddychwelyd drachefn, onid yw'n glerigwr wedi iddo gymryd urddau: dyma yw'r rhai hynny, ysgolheictod, a gofaniaeth, a barddoni.

Blegywryd – Q, Wynnstay 36, f. 43rb
Triawd estynedig

Tri pheth ny dylyir eu damtwg: kic hep croen, ac aryant heb lester, ac yt o'r pan el ar y yscub. Sef val y mae hynny: or collei y dyn anyueil byw, ac na ordiwedei yn lle bei tyb namyn y kic hep penn, hep croen, hep traet, kyfreith a dyweit na dyly ef y damtwg, kany dyly dyn damtwg ar ny welo. Yr eil yw aryant heb y llester, a gollo dyn; ny dyly y damtwg kanys vn ryw vyd pop aryant a'e gilyd; os collei ynteu yn y llester, herwyd breint y llestyr y dyly damtwg. Trydyd yw pei collei dyn yt ar y galaf; kyfreith a dyweit na dyly ef y damtwg, kany dyly dyn damtwg namyn kyfryw ac a gollo.

Blegywryd – Q
Triawd estynedig

Tri pheth nad yw'n iawn eu damdwng: cig heb groen, ac arian heb lestr, ac ŷd wedi iddo fynd oddi ar yr ysgub. Dyma sut y mae hynny: os collai dyn anifail byw, ac na châi hyd iddo yn y lle y tybiai iddo fod heblaw'r cig heb ben, heb groen, heb draed, dywed y gyfraith nad oes hawl ganddo i ddamdwng, oherwydd nid oes gan ddyn yr hawl i ddamdwng ar yr hyn na welo. Yr ail yw arian a gollo dyn heb y llestr; nid oes hawl ganddo i ddamdwng oherwydd bydd pob arian yn unfath â'i gilydd; os collai yntau['r arian] yn y llestr, bydd ganddo hawl i ddamdwng yn ôl braint y llestr. Trydydd yw pe collai dyn ŷd ar y goesyn; dywed y gyfraith nad oes ganddo hawl i ddamdwng amdano, oherwydd nid oes gan ddyn hawl i ddamdwng ond yr un fath ag a gollo.

H, Peniarth 278, t. 10

Trioedd Cyfraith

Deuparth gweith yw y dechreu. Trioed kyfreith:

Tri modd y sarheir brenin Aberffraw heb roi llaw arnaw: un yw torri y nawdd lle bo cyfryfel rhwng dwy wlad; ail yw lladd y gennat, neu ladd y wr lle rhoddo nawd iddaw yn y wydd; trydydd yw camarferu o'e wraig. Am bob un o'r tri hynn y dylu ef can muw am bob cantref o'e deyrnas, a tharw gan bob can muw, a gwialen aryant a'r ffiol eur a'r cufert arnei. Os Cymro fydd a dorro y nawdd, 2 punt. Os alltud a'i sarhaa felly, teir punt a thri ugein punt a dal; sef yw hwnnw, gwr ny bo Cymro fam dad.

Tri modd y sarhaer y rhiein freinyat (.i. y frenhines): un yw torri y nawdd yn yr amser y mae nawdd iddi drwy sarhau y neb a'y cyrchawdd yn y gwydd; ail yw y tharaw hitheu yr amarch iddi; trydydd, y threissiaw am beth o'e llaw. Trayan sarhaed y brenin yw y sarhaed yna, heb y wialen aryant a'r ffiol. Yr edlyc a ddyly sarhaed cymeint a'r brenin, eythyr y wialen a'r ffiol.

Tri meib ni cheiff y tyddyn breinyawl er y bod yeuaf: mab y frenin Aberffraw, canys yr hynaf a'e ceiff; a mab gwreic a gaffo tir o famwys; a mab a rodder ar faeth ar fab eillt o ganyat arglwydd, cyd caffo ef dir ni cheiff ef y tyddyn.

Tri peth ni ddyly y brenin fod hebddun (.i. anhebcor): ynad llys, a bard teulu, ac effeiryad.

Tri wrllys a ddyly y frenines: croen beleu, a llostlydan, a charlwng.

H

Trioedd Cyfraith

Deuparth gwaith yw ei ddechrau. Trioedd cyfraith:

Tri modd y sarheir brenin Aberffraw heb roi llaw arno: un yw torri ei nawdd lle bo cyd-ryfel rhwng dwy wlad; ail yw lladd ei negesydd, neu ladd ei ŵr lle y rhoddo nawdd iddo yn ei ŵydd; trydydd yw camddefnyddio ei wraig. Am bob un o'r tri hyn y mae ganddo hawl i gan buwch am bob cantref o'i deyrnas, a tharw gyda phob can buwch, a gwialen arian a'r ffiol aur a'r caead arni. Os Cymro fydd yr un a dorro ei nawdd, dwy bunt. Os alltud a'i sarha felly, tâl dair punt a thrigain; dyma yw hwnnw, gŵr na fo'n Gymro fam tad.

Tri modd y sarheir boneddiges freiniol (sef y frenhines): un yw torri ei nawdd yn yr amser y mae nawdd iddi drwy sarhau'r sawl a'i ceisiodd yn ei gŵydd; ail yw ei tharo hithau er amarch iddi; trydydd, ei threisio am rywbeth o'i llaw. Traean sarhaed y brenin yw ei sarhaed yna, heb y wialen arian a'r ffiol. Mae gan yr edling hawl i sarhaed gymaint â'r brenin, heblaw'r wialen a'r ffiol.

Tri mab na chaiff y tyddyn breiniol er eu bod yn ieuaf: mab i frenin Aberffraw, oherwydd yr hynaf a'i caiff; a mab gwraig a gaffo dir trwy famwys; a mab a rodder ar faeth i fab aillt gyda chaniatâd arglwydd, er iddo ef gael tir ni chaiff ef y tyddyn.

Tri peth nad yw'n iawn i'r brenin fod hebddynt (sef anhepgor): ynad llys, a bardd teulu, ac offeiriad.

Tri ymyl dillad y mae'n iawn i'r frenhines eu cael: croen bele, ac afanc, a charlwm.